Annwyl Cwsmer

**Swyddfa Bost Trinant**
**Wesley Terrace, Trinant, Crymlyn, Casnewydd, NP11 3LG.**

**Cau'r Gangen Dros Dro**

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu, yn anffodus, yn dilyn ymddiswyddiad y Postfeistr a thynnu'n ôl y safle ar gyfer defnydd Swyddfa'r Post, bydd y gangen uchod yn cau dros dro ar ddydd Sadwrn 21 Gorffennaf 2018

Hoffwn bwysleisio ein bod wrthi'n ystyried y dewisiadau er mwyn adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr y bydd unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl a fydd yn ei redeg, ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir drosodd. Sylwch, os gwelwch yn dda, na fydd eich sylwadau yn cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn yn benodol i ni wneud hynny wrth nodi'n glir arnynt: "Yn Gyfrinachol/In Confidence".

Byddai unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn cael eu gwneud yn unol â'n Cod Ymarfer sydd yn nodi sut rydym yn cyfathrebu ac yn esbonio newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Mae rhagor o wybodaeth am y Cod ar ddiwedd y llythyr hwn. Os oes gan bobl eraill yn eich sefydliad ddiddordeb yn y cynllun, byddwch cystal â rhoi gwybod iddynt amdano.

Hoffwn ymddiheuro am yr anhwylustod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio Swyddfa Bost. Mae'r manylion llawn am wasanaethau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennyf unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

Gareth Shylon

**Gareth Shylon**
**Rheolwr Ardal dros Newidiadau i'r Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**

comments@postoffice.co.uk
FREEPOST Your Comments
www.postofficeviews.co.uk

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd, ac mae gwybodaeth ynghylch sut i wneud hyn ar ein gwefan yn www.postoffice.co.uk/privacy

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

**Canghennau eraill:**

**Swyddfa Bost Crymlyn**
Siop y Pentref
Uned 5
Sgwâr Crymlyn
Casnewydd
NP11 4QD

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 07:00 – 21:00 |
| Mawrth | 07:00 – 21:00 |
| Mercher | 07:00 – 21:00 |
| Iau | 07:00 – 21:00 |
| Gwener | 07:00 – 21:00 |
| Sadwrn | 07:00 – 21:00 |
| Sul | 09:00 – 21:00 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal ag Ewros a Doleri.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ris a chanllaw wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio gerllaw ar y stryd.
Mae yna wasanaeth bws rheolaidd ar gael rhwng cangen Trinant a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn.
Mae'r arhosfan bysiau agosaf 160 metr i ffwrdd.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1.3 milltir o gangen Trinant, ar hyd tir bryniog.

**Swyddfa Bost Croespenmaen**
Siop Nisa
Lôn Maes-yr-haf
Croespenmaen
Crymlyn
Casnewydd
NP11 3BJ

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 06:30 – 21:30 |
| Mawrth | 06:30 – 21:30 |
| Mercher | 06:30 – 21:30 |
| Iau | 06:30 – 21:30 |
| Gwener | 06:30 – 21:30 |
| Sadwrn | 06:30 – 21:30 |
| Sul | 07:30 – 21:30 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal ag Ewros, Doleri a Threth y Car.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae yna barcio yn union y tu allan i'r gangen.
Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1.7 milltir o gangen Trinant, ar hyd tir amrywiol ei natur.